

Simon Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Mehefin 2018


Annwyl Simon

Diolch ichi am Adroddiad eich pwyllgor ar **Ddefnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau**, a gyhoeddwyd ar 1 Mai 2018. Trafododd y Comisiwn eich adroddiad ac ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau yn ei gyfarfod Bwrdd ar 4 Mehefin 2018. Mae ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid i'w weld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno cyllideb ddrafft yn ddiweddarach eleni, ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor a chanlyniad ymgynghoriad presennol y Bwrdd Taliadau i ystyried a ddylid gweithredu newidiadau er mwyn cynyddu hyblygrwydd i Aelodau o ran defnyddio gwahanol elfennau o'r Penderfyniad.

Nodwn fod y Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd eisoes gan y Comisiwn i wella tryloywder y gyllideb. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlr. Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffai eich Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth, yn ychwanegol at yr atodiad sydd ynghlwm.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan



Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i ddarparu lefel y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn nogfennaeth y gyllideb ddiweddaraf (2018–19) fel safon ofynnol ar gyfer cyllidebau ac amcangyfrifon yn y dyfodol.

Cytunwyd

Nodwn fod y Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd eisoes gan y Comisiwn i wella tryloywder y gyllideb. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlr.

Mae'r Comisiwn wedi trafod adroddiad y Pwyllgor Cyllid a'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Taliadau, yn dilyn ei ymgynghoriad diweddar. Bydd y gyllideb ddrafft a osodir gerbron y Cynulliad, erbyn 30 Medi 2018, yn cynnwys newidiadau a fydd yn gwella tryloywder cyllideb y Comisiwn fwy byth, a gobeithio yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor.

Bydd y newidiadau hyn yn gwella tryloywder cyllideb y Comisiwn ymhellach a gobeithio y byddant yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill, a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor.

Argymhelliad 2: Hoffai'r Pwyllgor ddeall yn fanylach sut y mae trefniadau llywodraethu newydd y Cynulliad/Comisiwn yn wahanol i'r trefniadau blaenorol, sut y bydd y trefniadau hyn yn cryfhau llywodraethiant a sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu mesur pa mor llwyddiannus yw'r newid. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn darparu manylion pellach iddo mewn perthynas â'r meysydd hyn.

Cytunwyd



Sut y mae'r trefniadau llywodraethu newydd yn wahanol i'r rhai blaenorol

Bellach, mae gan Gomisiwn y Cynulliad Fwrdd Gweithredol a Tîm Arweinyddiaeth ar waith. Mae'r ddau fwrdd hyn yn disodli'r model blaenorol o drefniadau llywodraethu a oedd yn cynnwys Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a Bwrdd Rheoli.

Mae'r trefniadau newydd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y gwneir penderfyniadau a rolau'r byrddau gwahanol, ac yn gweithredu argymhellion adroddiad archwilio mewnol yn 2017 yn dilyn ymgynghoriad ag uwch staff.

Yn flaenorol, roedd y Bwrdd Rheoli'n gorff penderfynu ac adolygu, ac roedd yn ymdrin â chynllunio a strategaeth gorfforaethol, rheoli sefydliadol a materion gweithredol a pholisi yn ymwneud â holl wasanaethau'r Comisiwn. Roedd gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau gyfrifoldeb strategol am sicrhau: bod Cronfa Fuddsoddi'r Comisiwn yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon; a bod capasiti adnoddau'n cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn a'i fod yn darparu llywodraethiant a sicrwydd i brosiectau newid sylweddol.

O dan y trefniadau newydd, y Bwrdd Gweithredol yw'r unig gorff sy'n gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau buddsoddi, yn amodol ar argymhellion y tîm Arweinyddiaeth, ac, os nad yw'r mater wedi'i ddirprwyo, yn amodol ar benderfyniadau'r Comisiynwyr. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel corff cynghori i Gomisiwn y Cynulliad, i sicrhau ei fod yn cael cyngor eglur o ran pennu strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, ynghyd â'r gyllideb flynyddol.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn gorff cynghori i'r Bwrdd Gweithredol ac yn alluogwr ar gyfer cyflwyno cynlluniau gweithredol, blaenoriaethau a'n trefniadau llywodraethu yn effeithiol.



Gellir rhoi Cylch Gorchwyl y ddau Fwrdd i'r Pwyllgor ar gais.

Sut y bydd y trefniadau hyn yn cryfhau llywodraethiant

O dan y trefniadau newydd, mae'n Bwrdd Gweithredol yn nodi blaenoriaethau gweithredol yn seiliedig ar strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn monitro'r gyllideb, yn cytuno ar flaenoriaethau buddsoddi a blaenoriaethau o ran adnoddau, yn goruchwyllo risgiau corfforaethol ac yn goruchwyllo rheoli newid.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn creu syniadau ac yn darparu her adeiladol. Atgyfnerthwyd ei rôl fel fforwm ar gyfer rhannu a lledaenu gwybodaeth. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cynnal ymarferion cynllunio senario ac yn dadansoddi opsiynau, ac mae'n cefnogi'r Bwrdd Gweithredol drwy gynnal ymarfer blaenoriaethu cam cyntaf ar yr holl fuddsoddiadau arfaethedig. Mae aelodaeth y Tîm Arweinyddiaeth wedi ei ehangu ac mae bellach yn cynnwys pob Pennaeth Gwasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn parhau i ddod i'r cyfarfodydd, ond mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan un o'i aelodau yn eu tro. Mae cadeirydd y Tîm Arweinyddiaeth yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol a chaiff cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd eu dosbarthu i'r Tîm Arweinyddiaeth.

Mae'r trefniadau newydd yn cyflwyno mwy o ddealltwriaeth ynghylch yr hyn sydd ar y gorwel, sy'n ein galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol a sicrhau bod y pynciau priodol yn cael sylw ar yr amser iawn. Cyflwynwyd blaenraglen waith wedi'i chydlynu. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn herio cynigion ac yn llywio'r Bwrdd Gweithredol cyn i'r Bwrdd wneud ei benderfyniad terfynol. Bydd ysgrifenyddiaeth a rennir, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn helpu gyda'r aliniad hwn.

Bydd y Comisiwn, fel y corff llywodraethu, yn cadw'r cyfrifoldeb dros bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Bydd y Comisiwn yn parhau i gymeradwyo strategaeth y gyllideb a darperir iddo fanylion y buddsoddiadau a gymeradwyir gan y Bwrdd Gweithredol. Hefyd bydd y Comisiwn yn parhau i



dderbyn sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar faterion sy'n ymwneud â risg, rheolaeth a llywodraethu.

Sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu mesur pa mor llwyddiannus yw'r newid.

Wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y ddau Fwrdd y mae'r ymrwymiad i drefnu adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd o bryd i'w gilydd. Y Pennaeth Llywodrethu a Sicrwydd fydd yn gwneud hyn. Bydd y Bwrdd yn trafod y canfyddiadau ac yn datblygu cynllun gweithredu os bydd angen.

Bydd y trefniadau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefel uwch hefyd yn cael eu hategu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth llywodraethu drwy'r sefydliad. Bydd gwell dealltwriaeth, perchnogaeth a defnydd o'n trefniadau llywodraethu a'u defnyddio yn ddull mesur pwysig o'n llwyddiant.

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod llywodraethiant da yn parhau i fod yn rhan o "fusnes fel arfer", gan wella ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a sicrhau bod gwneud penderfyniadau effeithiol yn seiliedig ar wybodaeth reoli gadarn. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn y targedau ariannol a'r adnoddau a gytunwyd gennym.



Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn adolygu ei ddull o ariannu prosiectau cyfalaf, gan sicrhau y caiff arian ei glustnodi ar gyfer prosiectau craidd o fewn ei gyllideb gyfalaf.

Cytunwyd.

Mae'r Comisiwn, ar ôl trafod adroddiad y Pwyllgor a phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau, yn dilyn ei ymgynghoriad, wedi adolygu ei ddull o ariannu prosiectau cyfalaf.

Ar ôl ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau, mae'r Comisiwn yn ystyried y bydd ceisio amcangyfrif yn gywir y tanwariant tebygol ar gyllideb y Penderfyniad yn fwy o her. Mae hyn yn creu risg annerbyniol sy'n gysylltiedig ag ariannu prosiectau cyfalaf a phrosiectau craidd o gronfa fuddsoddi, wedi'i ategu'n rhannol gan y tanwariant sy'n deillio o'r Penderfyniad yn ystod 2019–20.

O gofio hyn a phryderon y Pwyllgor Cyllid, mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig newid yn y ffordd y mae prosiectau craidd yn ei gyllideb gyfalaf yn cael eu hariannu. Bydd dogfen cyllideb ddrafft 2019–20, y bydd y Pwyllgor yn craffu arni yn ystod yr hydref 2018, yn adlewyrchu'r newid hwn.

Cynigir y bydd prosiectau blaenoriaeth a nodwyd i'w cwblhau yn ystod 2019–20 yn cael eu nodi yn nogfen y gyllideb ac y byddant bellach yn cael eu hariannu'n llawn o gyllideb graidd y Comisiwn, heb ddibynnu dim ar linell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd yng nghyllideb "graidd" y Comisiwn, sy'n adlewyrchu gwariant a fyddai, fel arall, wedi'i ariannu drwy'r gyllideb fuddsoddi o'r tanwariant ar linell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Yn ymwybodol bob amser o'n nod strategol i ddefnyddio adnoddau'n ddoeth, hyd yn oed gyda gweithdrefnau gwell ar gyfer blaenoriaethu, mae'r newid hwn yn debygol iawn o olygu bod y cynnydd y gyllideb gyffredinol yn fwy na'r cynnydd a ragwelir yng nghyllideb "Bloc Cymru" ar gyfer 2019–20.



Y gyllideb "graidd" yw "cyllideb weithredol" y Comisiwn nad yw'n cynnwys y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau a'r llinell gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) ar gyfer costau cyllid Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, sy'n addasiad cyfrifo nad yw'n arian parod.

Rydym yn ymwybodol o argymhelliad blaenorol y Pwyllgor Cyllid, a dderbyniwyd gan y Comisiwn, i beidio â chynyddu ein cyllideb y tu hwnt i unrhyw gynnydd i Floc Cymru.

Ni fydd y Comisiwn yn defnyddio'r tanwariant o ran llinell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Felly ni fydd swm sy'n cyfateb i'r tanwariant yn cael ei ddefnyddio o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y cynnydd cyffredinol i gyllideb y Comisiwn, ar wahân i unrhyw arian nas defnyddiwyd, yn parhau yn unol â'r cynnydd i grant Bloc Cymru. Bydd y cronfeydd hyn nas defnyddiwyd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd nesaf drwy Gronfa Wrth Gefn Cymru.



Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn sicrhau bod ffrydiau ariannu wedi'u nodi'n glir ar gyfer prosiectau a all gael eu dwyn ymlaen neu a fydd yn cael eu dwyn ymlaen fel blaenoriaethau buddsoddi, yn enwedig pan fo'r prosiectau hyn yn cwmpasu nifer o flynyddoedd. At hynny, mae'r Pwyllgor yn disgwyl y cynhelir dadansoddiad risg pan fo gweithgareddau yn cael eu dwyn ymlaen, o ystyried natur anrhagweladwy ac anwadal yr arian sy'n deillio o'r tanwariant.

Cytunwyd

Mae'r Comisiwn eisoes yn nodi ffrydiau ariannu'n glir ar gyfer prosiectau y gellid eu dwyn ymlaen fel blaenoriaethau buddsoddi.

Mae'r Comisiwn yn hapus i barhau i nodi ei flaenoriaethau buddsoddi yn ei ddogfen gyllideb ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'n anochel y gall blaenoriaethau, a'u cwmpas, newid yn ystod y flwyddyn. Gall cyllid felly fod ar gael drwy atal rhai prosiectau a gynlluniwyd yn flaenorol a gohirio eraill.

Mae asesiad risg wedi'i gynnwys yn ein holl gynlluniau blaenoriaethu buddsoddi. Bydd yn cael ei ystyried lle bynnag y bydd newid o ran blaenoriaeth ein buddsoddiadau, gan gynnwys lle rydym yn cyflwyno neu'n gohirio prosiectau i flynyddoedd ariannol gwahanol.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn yn cynnig newid o ran sut y mae'n cyflwyno ei gyllideb i gyfleu'r ddibyniaeth lai neu waredu'r ddibyniaeth ar y tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn archwilio'n llawn beth yw manteision a risgiau newid prosesau mewn perthynas â thanwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gyda ffocws ar fod mor dryloyw â phosibl. Dylai hyn hefyd roi ystyriaeth i ganlyniad ymgynghoriad presennol y Bwrdd Taliadau ynghylch hyblygrwydd y lwfansau yn y Penderfyniad.



Cytunwyd

Blaenoriaeth y Comisiwn yw sicrhau ei fod mewn sefyllfa i allu talu'r holl daliadau ac ad-dalu'r holl gostau y mae gan Aelodau hawl iddynt o dan y Penderfyniad.

Mae'r Comisiwn yn rhagweld ei gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau mewn tair ffordd: (i) drwy amcangyfrif y gost o fodloni ei rwymedigaeth o dan y Penderfyniad diweddaraf, (ii) drwy ddeall rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a (iii) drwy drafod â'r swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd.

Yn hanesyddol, bu tueddiad i fod â lefel sylweddol o danwariant yn erbyn cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r tanwariant hwn i ariannu prosiectau blaenoriaeth, drwy ychwanegu unrhyw danwariant i'w gronfa fuddsoddi. Mae'r Comisiwn, ar ôl iddo ystyried adroddiad blaenorol y Pwyllgor, wedi ymchwilio'n llawn i'r manteision a'r risgiau o newid y modd y mae'n cyflwyno ei gyllideb.

Rhodddwyd rhagor o ystyriaeth, ar ôl clywed canlyniad ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau, i sicrhau'r tryloywder mwyaf ac i leihau'r risg na fydd y Comisiwn yn gallu cyflawni ei amcanion na'i rwymedigaethau strategol o dan Benderfyniad y Bwrdd Taliadau. Bydd dogfen cyllideb ddrafft 2019–20 yn adlewyrchu newid yn y modd y mae'n cyflwyno ei gyllideb.

Cyflwyno Cyllideb y Comisiwn 2019–20

Fel y nodwyd yn ein llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 21 Rhagfyr 2017, trafododd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau bapur ar gyflwyno Cyllideb y Comisiwn 2019–20 yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017. Argymhellodd y Bwrdd y dylai'r Comisiwn ystyried dulliau amgen ar gyfer cyflwyno Cyllideb 2019–20, yn hytrach na pharhau â'r dull cyflwyno presennol. Mae'r Comisiwn wedi gwneud hynny.

Nod y Comisiwn, wrth gyflwyno model diwygiedig, yw mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan eich Pwyllgor ynghylch tryloywder a goblygiadau'r newidiadau sydd



i'w rhoi ar waith gan y Bwrdd Taliadau yn dilyn ei ymgynghoriad, gadw hyblygrwydd a lleihau'r risg i gyllideb y Comisiwn.

Daeth i'r casgliad mai'r model canlynol yw'r mwyaf tryloyw.

- cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau, i gynnwys symiau i gwmpasu "lwfansau staffio dros dro" a chronfa wrth gefn ar gyfer e.e. marwolaeth mewn gwasanaeth. Ni fyddai'r Comisiwn yn dibynnu ar unrhyw danwariant i ariannu ei flaenoriaethau buddsoddi;
- ni fyddai cronfa fuddsoddi'r Comisiwn bellach yn cael ei hategu gan danwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cynnydd cyfatebol i wrthbwysu'r diffyg hwn yng nghyllideb weithredol y Comisiwn, fel y nodwyd yn gynt.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y ffordd y gosodir cyllidebau a'r ffordd y defnyddir tanwariant ar draws deddfwrfeydd y DU yn amrywio'n fawr. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai deddfwrfeydd yn defnyddio systemau gwahanol ar gyfer cyllidebu a dychwelyd tanwariant, ac mae'n awgrymu bod y Comisiwn yn ystyried y prosesau hyn pan fydd yn adolygu ei weithdrefnau cyllidebu.

Nodwyd

Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ohebiaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor yn ystod ei ymchwiliad, ac mae wedi ystyried y prosesau hyn wrth drafod cyflwyniad diwygiedig dogfen y gyllideb ar gyfer 2019–20.

Mae'n amlwg bod nifer o ffyrdd eraill o gyflwyno cyllideb y Comisiwn. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd y gyllideb ddiwygiedig sydd i'w chyflwyno i'r Cynulliad yn ddiweddarach yn 2018 yn rhoi gwell eglurder a thryloywder, a bydd hefyd yn symud ymlaen i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad.

